

Map Swyddogaethol Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae

Ym mis Mawrth 2024, derbyniodd Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU sêl bendith Panel Safonau a Fframweithiau'r DU i symud ymlaen gydag adolygiad wedi ei hunan-ariannu o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae rhwng 2024 a 2026. Mae Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU yn cynnwys Chwarae Cymru, Play Scotland, PlayBoard Northern Ireland, Play England a'r Playwork Foundation.

Mae'r consortiwm wedi bod yn cyfarfod ers mis Hydref 2021 ac fe'i sefydlwyd i gynllunio'n strategol ar draws y pedair gwlad ar gyfer dyfodol datblygu'r gweithlu a mentrau sgiliau sector, yn cynnwys adolygiad pellach o'r NOS.

Mae cysylltiadau cryfion rhwng y consortiwm a'r pedwar Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (PETC) sydd a'r rôl o drafod materion o bwys strategol ar bob agwedd o addysg, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yn eu priod wlad. Cychwynnwyd y broses ffurfiol o adolygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae ar ddechrau 2025. Cynhaliwyd y broses o ddatblygu'r NOS eu hunain trwy 2025 a daeth i ben ym mis Mehefin 2026.

O waith ymchwil, ymarfer cwmpasu a sgysiau gyda gweithwyr chwarae a sefydliadau gwaith chwarae, mae themâu allweddol wnaeth hysbysu datblygiad y safonau:

- Ffocws ar waith chwarae fel arddull – cyflawni gwaith chwarae
- Gall gwaith chwarae ddigwydd mewn amrywiaeth eang o fannau a gofodau
- Mae angen symleiddio'r NOS
- Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, neu unrhyw fersiwn diwygiedig ohonynt, yn elfen hanfodol o'r safonau.

Yn ystod Ebrill a Mai 2026 ymgynghorodd y consortiwm ar fersiwn ddrafft y NOS ac mae'r adroddiad ar gael ar gais trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, categoriwyd y NOS yn ôl teitlau swyddi gweithiwr cymorth, gweithiwr chwarae a rheolwr gwaith chwarae. Dangosodd yr ymgynghoriad yn blaen iawn nad yw'r teitlau hyn yn adlewyrchu swydd-ddisgrifiadau'r sector. Mewn rhai achosion, defnyddir termau megis cynorthwyydd, iau neu uwch. Mewn achosion eraill gelwir staff, yn syml, yn weithwyr chwarae gyda gwahaniaethau mewn swyddogaeth yn dibynnu ar hyd eu gwasanaeth neu lefel cyfrifoldeb. Am y rheswm hwn, mae cyfeiriadau at deitlau swyddi wedi eu dileu. At ddiben datblygu hyfforddiant, cymwysterau, swydd-ddisgrifiadau a systemau arfarnu, dylid dethol y NOS fwyaf priodol sy'n adlewyrchu orau swyddogaethau'r rôl benodol dan sylw.

Ffurfiwyd Grŵp Ysgrifennu'r NOS o arbenigwyr sector ymroddedig a ymgwymerodd â'r gwaith o ysgrifennu'r NOS newydd ar gyfer gwaith chwarae. Aelodaeth y grŵp ysgrifennu:

Enw	Lleoliad
Caroline Kerr	Gogledd Iwerddon
Dianne Larrington	Lloegr
Karen Crawford (arbenigwr technegol)	Qualifications Scotland
Karen Sharp (Cadeirydd)	Yr Alban
Kay Maxwell	Yr Alban
Martin King-Sheard	Cymru
Meynell Walter	Lloegr
Mike Wragg	Lloegr
Sarah Bird	Cymru

Map Swyddogaethol NOS: Gwaith Chwarae

Diben allweddol: Mae gwaith chwarae yn arddull unigryw tuag at weithio gyda phlant o bob oed mewn ystod eang o leoliadau. Diben allweddol y gweithiwr chwarae yw cefnogi a hwyluso chwarae fel y disgrifir yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

* Mae tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn elfen annatod ar draws y NOS i gyd

Côd	Teitl y NOS
PWNC201	Cefnogi a hwyluso chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
PWNC202	Cyfrannu at ddatblygu perthnasoedd gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
PWNC203	Myfyrio ar ymarfer gwaith chwarae
PWNC204	Cyfrannu at greu perthnasoedd gydag oedolion i ddatblygu a gwella ymarfer gwaith chwarae
PWNC205	Cyfrannu at baratoi ar gyfer a chynnal teithiau y tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae
PWNC206	Cyfrannu at arddull gwaith chwarae ar gyfer plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol
HSCCLD24	Cynorthwyo â'r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
PWNC301	Paratoi ar gyfer, cynllunio, cefnogi a hwyluso chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
PWNC302	Datblygu perthnasoedd gyda phlant sy'n cefnogi eu chwarae, eu hiechyd a'u lles gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
PWNC303	Creu perthnasoedd gydag oedolion i ddatblygu chwarae ac ymarfer gwaith chwarae
PWNC304	Ymgymryd ag ymarfer myfyriol er mwyn hysbysu a gwella ymarfer
PWNC305	Darparu bwyd a diod mewn lleoliad gwaith chwarae
PWNC306	Paratoi ar gyfer a chynnal teithiau y tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae
PWNC307	Cefnogi a hwyluso creu adeiladwaith gwaith chwarae
PWNC308	Rhoi arddull gwaith chwarae ar waith ar gyfer plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol
PWNC309	Paratoi ar gyfer arwain a rheoli mewn gwaith chwarae
HSCCLD34	Hybu'r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill

Côd	Teitl y NOS
PWNC401	Arwain a chefnogi staff gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
PWNC402	Arwain a rheoli'r lleoliad gwaith chwarae
PWNC403	Hybu ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol mewn gwaith chwarae
PWNC404	Rheoli a chyfoethogi perthnasoedd mewnol ac allanol sy'n benodol i waith chwarae
PWNC405	Archwilio a gweithredu fframweithiau cyfoes mewn cyd-destun gwaith chwarae
PWNC406	Defnyddio arddull gwaith chwarae tuag at ddatblygu ac ymgysylltu cymunedol
PWNC407	Gwneud penderfyniadau mewn gwaith chwarae yn seiliedig ar wybodaeth a dadansoddi
PWNC408	Arwain a rheoli arddull gwaith chwarae ar gyfer plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol
PWNC409	Rheoli cydymffurfio â fframweithiau sicrhau ansawdd gwaith chwarae allanol
PWNC410	Rheoli adnoddau ariannol mewn lleoliad gwaith chwarae
PWNC411	Darparu arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar werthoedd mewn gwaith chwarae
PWNC412	Recriwtio a dethol pobl i weithio mewn gwaith chwarae
HSCCLD44	Arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill

